Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

LEWIS, JOHN (fl. 1728-55), argraffydd a chyhoeddwr

Enw: John Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: argraffydd a chyhoeddwr
Maes gweithgaredd: Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Brodor o Faesyfed ydoedd, brawd iddo, meddir, oedd Thomas Lewis, y cynghorwr Methodistaidd. Yr oedd yn Llundain yn 1728, a daeth i'r amlwg c. 1740 fel cyhoeddwr i'r cymdeithasau crefyddol. Ei gartref ysbrydol oedd y Tabernacl, Moorfields, neu seiat Fetter Lane. O'i swyddfa yn Bartholomew Close dechreuodd gyhoeddi *The Christian's Amusement* yn 1740-1, cyhoeddiad wythnosol yn cynnwys llythyrau, gan mwyaf, oddi wrth George Whitefield a'i ohebwyr. Parhaodd y papur am rai blynyddoedd dan y teitlau amrywiol *The Weekly History*, 1741-2, *An Account of the Progress of the Gospel*, 1743-4), a *The Christian History*, 1744-5. Cyhoeddodd lawer o lyfrynnau o waith Methodistiaid y cyfnod. Bu farw 13 Mai 1755, a chladdwyd ef yn Bloomsbury. Yr oedd ei wraig a'i blant yn Forafiaid.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts , (1904 - 1993)

Ffynonellau

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, ii-v, passim

Proceedings of the Wesley Historical Society, xxi, 128-30

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733535

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Roberts, G. M., (1953). LEWIS, JOHN (fl. 1728-55), argraffydd a chyhoeddwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 4 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LEWI-JOH-1728

Copïo'r cliptrwydd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government